



HYSBYSIAD STATUDOL I NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL UWCHRADD ELFED, BWCLE, SIR Y FFLINT.

CYNGOR SIR Y FFLINT

HYSBYSIR TRWY HYN, yn unol ag Adrannau 28(1)(a) a 29(1)(a) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (OS1999/1671) fel y'u diwygiwyd, fod Cyngor Sir y Fflint, o Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw unigolion ag yr ymddangosai'n briodol iddynt hwy, yn bwriadu:-

- Gostwng ystod oedran Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle, o 11-18 i 11-16 o 1 Medi 2014

Bwriedir y bydd disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Uwchradd Elfed ac sy'n dymuno manteisio ar ddarpariaeth ôl-16 (chweched dosbarth) yn cael lle yn y ddarpariaeth Ôl-16 (y chweched dosbarth) yn Ysgol Uwchradd Alun, yr Wyddgrug, neu mewn darpariaeth addas arall a ddewiswyd gan y myfyrwyr yn unol â'u blaenoriaeth, cyhyd â bod lleoedd ar gael.

Bydd myfyrwyr sydd ym mlwyddyn ysgol 11 a 12 presennol yn gallu cwblhau eu astudiaethau ol 16 yn Ysgol Elfed yn y un modd a'r presennol.

Y rhif derbyn yr ysgol bydd 175. Ymdrinnir â threfniadau derbyn yn unol â Pholisi Derbyn yr ALI.

Ymdrinnir â threfniadau cludo disgyblion trwy gyfeirio at Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr ALI.

O fewn cyfnod o fis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 26 Gorffennaf 2013, caiff unrhyw unigolyn gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynigion. Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND.

Bydd yr Awdurdod yn anfon copiâu o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wnaed (ac na thynnwyd yn ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'u sylwadau arnynt, i Lywodraeth Cymru o fewn cyfnod o fis ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Bydd angen i'r cynigion (oni bai y cânt eu tynnu'n ôl) gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru:-

- (a) Os yw Gweinidogion Cymru, o fewn dau fis o anfon copi atynt, yn rhoi gwybod bod angen cymeradwyaeth o'r fath arnynt; neu
- (b) Os cyflwynwyd gwrthwynebiadau o fewn y cyfnod gwrthwynebu ac ni thynnwyd hwy yn ôl yn ystod y cyfnod hwnnw.

Lle nad oes angen cymeradwyaeth o'r fath ar gynigion, bydd Cyngor Sir y Fflint, sy'n gweithredu fel yr ALI, yn penderfynu a ddylid eu rhoi ar waith ai peidio.

Ian Budd
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

Dyddiad 28 Mehefin 2013

NODYN ESBONIADOL:

Nid yw'r nodyn hwn yn ffurfio rhan o'r hysbysiad statudol. Yn hytrach, fe'i bwriedir i esbonio ei ddiben cyffredinol.

Mae Cyngor Sir y Fflint, sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Lleol, yn bwriadu newid ystod oedran Ysgol Uwchradd Elfed ym Mwcle o 1 Medi 2014.

Bydd y ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Alun, yr Wyddgrug, yn cael ei chynnig i fyfyrwyr. Gellir manteisio ar fathau eraill o addysg a hyfforddiant ôl-16 fel y gwneir ar hyn o bryd.

Bydd y newid yn golygu y bydd y chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Elfed yn cael ei gau. Fodd bynnag, bydd disgyblion ym mlwyddyn presennol 11 a 12 yr ysgol yn gallu parhau i fanteisio ar y darpariaeth chweched dosbarth sydd ar gael yn yr ysgol.

Bydd y trefniadau Cludiant a Derbyn yn cyd-fynd â pholisïau cyffredinol Cyngor Sir y Fflint.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y cynigion gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND (rhif ffôn 01352 704011)